# Cynorthwyo gweithrediadau galeri a chynhyrchu cynyrchiadau aml-ffynhonnell wedi'u recordio

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â monitro gweithgareddau cynhyrchu yn ystod sesiynau recordio a galw'r rhifau saethiadau cywir o'r sgriptiau yn y drefn gywir ac ar amser. Mae'n ymwneud â bwrw golwg ar y saethiad nesaf neu sydd ar y gweill ar y monitor a'u cymharu gyda'r sgript.

Mae'n ymwneud â chadarnhau a gweithredu cyfarwyddiadau'r cyfarwyddwr ar gyfer newidiadau i'r saethiadau a thrafod y rhain yn eglur gyda'r bobl briodol.

Mae'n ymwneud â chyfrifo hyd bob dilyniant a rhaglenni cyflawn, gan gyfri cyn ac ar ôl dilyniannau wedi'u recordio ymlaen llaw, monitro amseriadau, adnabod unrhyw adegau lle mae'r ffilmio'n rhy hir neu'n rhy fyr, ac ail-gyfrifo amseriadau pan fo newidiadau.

Mae'n ymwneud â chofnodi cynigion a llunio nodiadau golygu manwl gywir. Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer Goruchwylwyr Sgriptiau a Chydlynwyr Cynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyflwyno ac uwch lwytho sgriptiau i'w defnyddio ar systemau priodol
2. paratoi cardiau camera a chiwiau a gwirio bod y rhain yn gywir o gymharu â gofynion y cynhyrchiad
3. galw'r rhif saethiad cywir o'r sgriptiau yn y drefn gywir, ac ar amser
4. bwrw golwg ar a chyhoeddi'r saethiadau nesaf neu sydd ar y gweill ar y monitorau a'u cymharu gyda'r sgriptiau
5. cynnig rhybuddion modd segur i weithredwyr fideo gan gynnig ciwiau iddyn nhw pan fo'u hangen
6. rhoi gwybod i gyfarwyddwyr heb oedi os oed yna unrhyw anghysonderau rhwng y sgript y cytunwyd arni a'r ffynhonnell nesaf neu sydd ar y gweill
7. cadarnhau a gweithredu cyfarwyddiadau'r cyfarwyddwr ar gyfer newidiadau i saethiadau gan roi gwybod i'r bobl briodol am y newidiadau
8. llunio cyfrifiadau manwl gywir o hyd y rhaglenni a phob dilyniant
9. monitro amseriadau dilyniannau drwy gydol y rhaglen er mwyn bodloni gofynion y cynhyrchiad
10. cyfri'r mewnosodiadau wedi'u recordio ymlaen llaw cyn dechrau ac ar ôl gorffen ffilmio yn fanwl gywir
11. cynnig cyfrifiad manwl gywir ac eglur cyn ac ar ôl mannau penodol mewn rhaglenni, sy'n glywadwy i dimau cynhyrchu a thechnegol, perfformwyr a chyfranwyr
12. cynnal cymhariaeth fanwl gywir rhwng union amseriadau ac amcanion
13. cyflwyno amseriadau ymarferion ac unrhyw anghysonderau sylweddol i'r bobl briodol
14. ail-gyfrifo amseriadau pan fo newidiadau i gynnwys rhaglenni a threfn y dilyniant
15. cyfrifo'r amser gofynnol er mwyn ffilmio cynnwys sydd yr un hyd â'r rhaglen gyflawn pan fo rhaglenni yn cynnwys eitemau o hyd hyblyg a chyflwyno cyfrifiadau i weithwyr y rhaglenni heb oedi
16. monitro perfformiad o gymharu â'r sgript a hysbysu gweithwyr y rhaglen ynghylch unrhyw anghysonderau heb oedi
17. llunio cyfeirnod manwl gywir ac eglur ar gyfer pob cynnig, gan gynnwys manylion manwl gywir a chryno o'r cynnwys ac amseriad ar gyfer pob cynnig

ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw ail-gynigion yn y cofnod

18. dosbarthu cofnodion i'r bobl briodol heb oedi
19. gwirio fod yr wybodaeth yn y penawdau a deunyddiau rhwydweithio cymdeithasol a hyrwyddo yn fanwl gywir ac yn berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gyflwyno ac uwch lwytho sgriptiau
2. pwysigrwydd cardiau camera a chiwiau
3. sut i adnabod saethiadau yn eu trefn
4. sut i fwrw golwg ar saethiadau sydd ar y gweill o gymharu â'r sgript
5. dulliau galw saethiadau a sut i'w defnyddio i alw saethiadau'n fanwl gywir ac yn glywadwy
6. sut i gyfrifo amseriadau a monitro dilyniannau
7. sut i gyfri'n gywir
8. pwy i'w hysbysu o unrhyw anghysonderau
9. dulliau cyfathrebu gyda gweithwyr y rhaglen a sut i'w defnyddio
10. pam a sut mae newidiadau yn effeithio ar amser rhedeg y rhaglen
11. y termau technegol i'w defnyddio
12. sut i gyfeirnodi cynigion
13. pa wybodaeth i'w chofnodi
14. sut i gofnodi anghysonderau neu newidiadau yn y sgript
15. sut i ailgyfrifo newidiadau i gynnwys y rhaglen
16. sut i greu cyfrif manwl gywir yn y cofnod
17. sut i lunio a dosbarthu nodiadau golygu
18. sut caiff penawdau eu defnyddio a phwysigrwydd gwirio'u cywirdeb pan fyddwch yn eu defnyddio
19. sut i fanteisio ar gyfryngau cymdeithasol i lunio presenoldeb marchnata uniongyrchol

SKSP30

Cynorthwyo gweithrediadau galeri a chynhyrchu cynyrchiadau aml-ffynhonnell wedi'u recordio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP30 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Cynhyrchiad, Oriel, Wedi'i Recordio |